Y Dinesydd

Tachwedd 2010 Rhif 352 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog

Owen Edwards 1933-2010

Cardi oedd Owen. Fel pob Cardi da yr oedd hefyd yn falch o'i dras. Beth am ychwanegu'r "ff-factor' a drodd y Cardi yn ddinesydd Cardi-ff. Ystyr 'ff' i'r cerddor, un o'r sgiliau na feddai Owen, yw 'double forte' - 'yn uchel iawn'. Ac fel un uchel iawn ei barch yng Nghaerdydd, heb sôn am y parch oedd iddo yn genedlaethol, y cofir amdano.

Daeth i Gaerdydd i fyw yn 1961. Wedi bwrw'i brentisiaeth ddarlledu i gwmni Granada ym Manceinion daeth yma i gyflwyno HEDDIW i'r BBC. Fe'i gwelid ar y sgrin yn ddyddiol, fel arfer yn y stiwdio, yn angor i raglen gylchgrawn oedd hefyd yn cynnwys newyddion. Daeth yn wyneb cyfarwydd ac yn bersonoliaeth awdurdodol.

Parhad ar dudalen 2

ARCHEBU'R DINESYDD

Os ydych wedi trefnu archeb banc i dalu am eich Dinesydd, a fyddech cystal gwneud yn siŵr mai unwaith y flwyddyn yn hytrach nag unwaith y mis y mae eich arian yn gadael eich cyfrif. Cysylltwch â'r trysorydd Cynthia Evans 029 20655201 os oes problem ac am hawlio ad-daliad.

Cerbydau Canol y Ddinas

Mae Cyngor Caerdydd wedi lansio cerbydau trydan newydd sy'n cynnig datrysiad teithio arloesol i'r rheiny sydd angen help o gwmpas canol y ddinas.

Bydd dau gerbyd amgylcheddol-gyfeillgar sy'n gallu cario tri theithiwr yr un yn cael eu treialu i ddarganfod anghenion pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y ddinas, yn ogystal ag ymwelwyr â Chaerdydd sydd angen help i gael mynediad at rai ardaloedd yng nghanol y ddinas. Bydd y cerbydau yn teithio o gwmpas canol y ddinas gan ddilyn llwybr hyblyg. Gall cerddwyr stopio'r cerbydau os hoffent ddefnyddio'r gwasanaeth a bydd y cerbyd yn mynd â'r teithwyr i le y mynnont o fewn canol y ddinas.

Gall pobl sy'n cynllunio teithio ymlaen llaw archebu'r gwasanaeth ar 029 2087 3888. Gellir galw'r rhif hwn ar gyfer gwybodaeth gyffredinol neu gwestiynau am lwybrau arferol y cerbydau.

Ysgol y Wern

Fe gynhaliodd yr ysgol Ddiwrnod Gwisg Anffurfiol er mwyn codi arian ar gyfer Hosbis George Thomas. Yn ogystal â hyn fe benderfynodd y staff gymryd rhan yn y Daith Gerdded Gobaith, a gynhaliwyd ar 10-10-10, er cof am un o'n cyn athrawon, Mrs Non Owen. Codwyd £1800 tuag at y gronfa.

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Siân Parry-Jones
Golygydd y rhifyn nesaf:
Hywel Jones
Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd 2010 erbyn 24 Tachwedd at:
Hywel Jones,
4 Heol Heath Halt,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd CF23 5QF
ebost: hywel.jones4@ntlworld.com
ffôn: 02920211855

MANYLION CYSYLLTU
Calendr y Dinesydd
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk
029-2062-8754)

Hysbysebion
Menter Caerdydd,
42 Lambourne Cres,
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien,
Caerdydd CF14 5GG
(hysbysebu@dinesydd.com;
029-20689888)

Dosbarthu copïau
Huw Jones, 22 Blaen-y-Coed, Radur, Caerdydd. CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan Penri Williams
a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cofio Owen Edwards

(Parhad o dudalen 1)

Yr oedd y gwyliwr yn ymddiried ynddo oherwydd ei degwch a'i foneddigeiddrwydd cynhenid.

O symud naill-ochr i swyddi gweinyddol ni pheidiodd ei broffil cyhoeddus. Yr un oedd ei deyrngarwch i'r gynulleidfa fel Rheolwr y BBC yn 1974 mewn cyfnod ieithyddol anodd o sefydlu gwasanaethau Radio Cymru a Radio Wales. Credai mai dyletswydd gyhoeddus oedd darlledu a dyna'r seiliau a osododd i S4C fel ei Chyfarwyddwr cyntaf yn 1981. Y dyn iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn. Dywedwyd hynny drosodd a throsodd adeg ei farwolaeth.

Fel bu ei daid yn arloeswr ym myd addysg Gymraeg, ei dad yn arloeswr ym mywyd ieuenctid Cymru bu Owen yn arloeswr ym myd darlledu Cymraeg. Roedd ganddo weledigaeth glir am bwrpas y sianel fel modd i dynnu ar adnoddau annibynnol a masnachol i greu gwasanaeth cyhoeddus. Teulu, nid ymerodraeth, oedd S4C yn ei olwg. Brwydrodd yn ddewr a digyfaddawd yn erbyn rhagfarnau gwleidyddol a chymdeithasol. Trodd yr 'arbrawf' yn llwyddiant a hyd ei farw chlywais i erioed mohono yn gyhoeddus feirniadol o'r sianel.

Yr oedd, fodd bynnag, frwydr arall i'w hwynebu; brwydr fwy personol o lawer. Dewrder ac urddas a nodweddai'r frwydr honno hefyd. Bu Rosemary yn gefn mawr iddo i wrthod ildio er bod y corff yn edwino. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi ac ag Elin a Mari a'u teuluoedd.

Bu Owen farw ar 31 Awst a'r angladd ym Methel Penarth ac Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar 17 Fedi 2010.

R Alun Evans

Trydar Dinesig

Mae llunio erthygl fer werth chweil yn dasg anodd ar y naw heb ddechrau trydar, os mai dyna'r gair am *twitter*. Ac wrth deipio'r gair hwn dyma'r awen yn hedfan at fy nghyfrifiadur, a'm hatgoffa am ddyddiau cynnar Rhydfelen a'r galw am sefydlu bathglwb, a Phwyllgor Ieithwedd ACCAC a finnau'n bathu'r geiriau 'rhagweithiol' a 'Termiadur'.

Yr iaith Gymraeg yn esblygu ac yn symud i feysydd newydd a sbardunodd y bathu, arwydd clir o iachusrwydd yr iaith Gymraeg. O'i chyfyngu i feysydd traddodiadol megis hanes neu grefydd, bydd yn edwino ac yn marw: cofiwn fod un iaith yn diflannu o'r byd bob pythefnos. A derbyn felly'r ddadl mai iaith ar gyfer pob agwedd ar fywyd yw'r Gymraeg, bydd angen ychwanegu at gorpws yr iaith yn gyson, ac mae canolfan cenedlaethol ar gyfer hynny yn allweddol. Eisoes gwnaeth athrawon, CBAC, Canolfan Bedwyr ym Mangor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg waith ardderchog, ac mae angen sicrhau cydlynu cenedlaethol er mwyn cysoni termau.

Defnyddio'r geiriau hyn yn naturiol bob dydd yw'r sialens. Dwy ddim yn golygu y bydd 'hafaliadau cydberthynol' yn britho'n sgwrs, ond mi fydd 'rhagweithiol 'yn llithro'n rhwydd o wefusau'r werin bellach, fel y bydd sylwebyddion ac arbenigwyr yn arfer termau Cymraeg o amrywiol feysydd yn gwbl naturiol ar y cyfryngau. Rydym yn ddyledus i Eic Davies am ddangos y ffordd inni ym maes chwaraeon.

Ond erys sialens fwy, sef codi awydd yn ein pobl i siarad yr iaith. Pan fo un o ieithoedd mwyaf dominyddol y byd yn byw drws nesaf, does syndod cyn anferthed y dasg. Defnyddiwn bob cyfle i hyrwyddo'r iaith ymhlith dysgwyr a phobl ifanc a disgyblion yr ysgolion Cymraeg, cyn i'r Gymraeg droi yn iaith addysg yn unig. Mae'r deisyf hwn yn llawer mwy na thrydar colofnydd: mae'n neges a fedrai fod yn allwedd i wireddu breuddwyd llae mae pawb yng Nghymru yn siarad yr iaith. Drwy deimladau ac ymagweddiad y dylanwadwn ar reddf ieithyddol, nid drwy statud a pholisi, er bod ganddynt eu priod le yn y frwydr.

Dr Huw Thomas

Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, Caerdydd. CF11 9DE
PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Mermaid Quay, Bae Caerdydd. CF10 5BZ
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b, Heol y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6HF
HALLS, 44, Stryd Fawr, Llandaf, . CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, Caerdydd. CF24 3PA
SIOP Y BONT, Marchnad Pontypridd, Pontypridd. CF37 2ST
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth. CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri. CF62 7EA
THE CHOCOLATE BOX, Boverton Road, Llanilltud Fawr. CF65 1YA
THE LITTLE SHOP OF CALM, 1 Westgate, Y Bontfaen. CF71 7AQ
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien

Merched y Wawr Caerdydd

Daeth rhai o'r aelodau at ei gilydd ym mis Hydref i weld casgliad o ddillad o'r tridegau. Daeth Mrs Megan Morris â thrysorfa ohonynt i'w harddangos a bu llawer o edmygu'r gwaith celfydd arnynt heb ddim nylon na polyester. Diolchwyd iddi gan Mrs Myfanwy Jarman.

Oriel Kathy Gittins yn Y Bontfaen

Diwrnod i'w gofio oedd Dydd Sadwrn, 9ed o Hydref, yn Y Bontfaen, a diwrnod arbennig o hapus hefyd. Ar ben pellaf y stryd fawr, gyferbyn a'r hen farchnad, torrodd mam Kathy Gittins ruban sidan gloyw gyda sisiwrn go arbennig, ac agorodd y siop ddillad newydd mewn steil. Llwyd yw lliw'r paent y tu allan ac o amgylch y drws roedd balwnau porffor tanbaid yn datgan i bawb fod parti go arbennig yno. Drwy'r bore roedd Kathy'n cynnig Coffi a Phice ar y Maen cartref i bawb a alwai heibio; yn y prynhawn caech De a Chacennau bach, a min nos wydraid o Siampen a Chanapes! Gyda'r Gymraeg yn byrlymu, roedd fel parti ar faes yr Eisteddfod yno drwy'r dydd! Daeth rhai o'r merched o siop Kathy ym Mhwllheli i gynorthwyo, a hyfryd iawn oedd eu cael nhw yno.

Yr argraff gyntaf a gewch yw mor chwaethus yw'r siop gyda digon o le i arddangos y dillad, ac i symud o gwmpas, a digon o le i newid hefyd, ac, yn bwysig iawn, digon o ddewis o ddillad hawdd eu gwisgo. Ar y gwahoddiad roedd Kathy'n addo 'diwrnod o ffasiynau i'ch gwefreiddio a'ch ysbrydoli i siwtio pob oedran a phoced'. Tipyn o addewid! Ond wrth edrych o gwmpas gwelwn ferched o bob oedran, ambell i wyneb ifanc cyfarwydd o fyd y cyfryngau ac eraill oedd yn ddigon hen i fod yn famau a hyd yn oed yn famguau iddynt, a phawb wrth eu bodd yn edrych ar y dillad, a llawer o brynu!

Tipyn o gamp yw dewis dillad ar gyfer gwahanol oedrannau a siapau, a'r hyn oedd mor arbennig oedd eich bod yn teimlo y gallech edrych a gwisgo amdanoch heb bwysau arnoch i brynu, a theimlech na fyddai neb yno yn ceisio'ch perswadio fod rhyw ddilledyn yn gweddu os nad oedd! Os cewch gyfle, ewch i Oriel Kathy yn Y Bont Faen i fwynhau croeso Cymreig arbennig, ac efallai cewch jest y peth ar gyfer y gaeaf!

Rhiannon Gregory

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i …

… Sion Pierce Lewis, mab Richard a Bethan Lewis. Llandaf, a Catrin Wyn Jones, merch Heddwyn a Margaret Jones, Pont-iets, ar eu dyweddïad.

…Stan Jones Llysfaen sy'n aelod o Gôr Aelwyd Hamdden ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed.

… i Beca a Richard Newis, Yr Eglwys Newydd ar enedigaeth Gruffudd Sion a Betsan Sion - brawd a chwaer i Iolo a Mali ; llongyfarchiadau hefyd i Manon a Rhys yn Aberaeron ar enedigaeth Owain Rhys - brawd bach i Dafydd ; wyrion i John Albert a Tegwen Evans, Llys-faen.

Cychwyn Eisteddfod 2012

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus dechrau mis Hydref yn y Bari pan ddaeth dros 150 o drigolion lleol ynghyd i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yn ôl i Fro Morgannwg, am y tro cyntaf ers dros ddeugain mlynedd. Yn diweddarach yn y mis cynahliwyd cyfarfod arbennig i ffurfio ffurfio'r is-bwyllgorau lleol ar gyfer yr ŵyl a gynhelir yn ardal Llandow o 4-11 Awst yn 2012.

Meddai Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr Eisteddfod: "Cafwyd ymateb ardderchog i'r cyfarfod cyhoeddus, a rydym yn edrych ymlaen yn awr i gychwyn ar y gwaith caib a rhaw o drefnu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg. Dyma'r cyfle i sicrhau eich bod yn chwarae rhan go iawn yn y gwaith dros y ddwy flynedd nesaf, a gwneud yn siwr bod stamp pobl Bro Morgannwg i'w weld yn glir ym mhob rhan o'r Eisteddfod, o destun yr Awdl yng nghystadleuaeth y Gadair i'r darn prawf ar gyfer yr Unawd Bas," ychwanegodd.

Mae'r Eisteddfod yn croesawu ymholiadau gan unrhyw un sydd am fod yn rhan o'r paratoadau ar gyfer Eisteddfod 2012. Am ragor o fanylion, gellir ffonio Swyddfa'r Eisteddfod ar 0845 4090 400.

Nadolig Caerdydd – Y Stori

Bydd digwyddiad cyffrous yng nghanol y Ddinas y Nadolig hwn: caiff holl blant Caerdydd gyfle i weld Drama'r Geni yn cael ei pherfformio - yn rhad ac am ddim - yn Y Tabernacl yn Yr Ais rhwng 1af a'r 18fed o Ragfyr. Cynhelir perfformiadau (rhai yn Saesneg ac eraill yn Gymraeg) sawl gwaith y dydd, bob dydd - heblaw'r Sul - am dair wythnos. Bwriedir i hyn fod yn atyniad mawr i ddenu plant a'u dysgu am wirionedd y Nadolig.

Caiff festri'r Tabernacl ei gweddnewid yn theatr dros dro er mwyn creu awyrgylch briodol a bydd stondinau ac atyniadau yng nghwrt y capel i werthu nwyddau perthnasol a chreu amgylchfyd cyffrous. Caiff pob cynulleidfa brofi pymtheg munud gwefreiddiol o theatr ac adrodd stori – gan ddechrau gyda chodiad y seren yn y Dwyrain a gorffen gyda'r baban Iesu yn cysgu'n ddiogel ym mreichiau ei fam.

Mewn arolwg diweddar, dim ond 44% o blant allai gofio fod gan Iesu unrhyw beth i'w wneud â'r Nadolig. Gobeithio bydd yr arbrawf hwn yn gofalu bod llawer mwy o blant yn dod i ddeall Stori'r Nadolig drwy ei mwynhau.

Bydd ysgolion yn cael gwybod am y trefniadau – os na chawsant wybodaeth eisoes - a chafwyd cefnogaeth frwd yn barod. Os gallwch gynnig unrhyw gefnogaeth neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sally ar 029 2049 3326 neu sally_humble_jackson@hotmail.co.uk

YMATEB DARLLENWYR

Hoffai golygyddion a Phwyllgor Y Dinesydd glywed barn ein darllenwyr.

Pa rannau o'r Dinesydd sy o fwyaf o ddiddordeb i chi?

Pa fath o destunau newydd fyddai o ddiddordeb i chi?

Rhowch wybod i ni - ac unrhyw sylwadau eraill - drwy e-bostio

ydinesydd@gmail.com

Cofiwch hefyd ein bod ni wastad yn falch o glywed oddi wrth ohebyddion newydd - rhowch wybod os hoffech chi gyfrannu mewn unrhyw ffordd.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Ysgol Iolo Morgannwg

Cychwynwyd tymor yr Hydref yn llawn cyffro eleni wrth i ni weld bod ystafell ddosbarth newydd wedi sefydlu. Yn dilyn cyfnod hir o drafod a threfnu cytunwyd yr Awdurdod ar ariannu dosbarth newydd i'r Ysgol. Mae'r ystafell newydd yn ateb dros dro i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg yn y Fro Wledig.

Mae'r Ysgol wedi cychwyn ar gynllun gwerthoedd eleni a dechreuwyd ar y gwaith yn syth yn ystod ein hwythnos Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). "Hapusrwydd" oedd thema'r wythnos ac fe aeth y plant a'r staff i gyd ati i ymwneud a llu o weithgareddau er mwyn trafod teimladau.

Yng nghlwm a'n hwythnos ABCh mae ein digwyddiad noddedig er mwyn codi arian tuag at elusen Mac Millan. Yn ogystal â chynnal diwrnod gwyrdd a bore coffi mae'r plant wrthi'n dysgu enwau coed a dail ar eu cof. Pob hwyl iddynt gyda'r gwaith!

Cafodd holl athrawon ein hysgolion cynradd ac adran y Gymraeg Ysgol Gyfun y Fro eu hysbrydoli yng nghwmni Meinir Ebsworth yn ddiweddar. Lansiad swyddogol y blwch llythrennedd oedd nod y diwrnod hyfforddi. Fe fydd yr adnodd a'r cynllun drilio a chyfoethogi Iaith yn cael defnydd mawr yn ein hysgolion. Diolch yn fawr i Meinir Ebsworth am ei harbenigedd ac i Menna Roberts, ymgynghorydd y Gymraeg am drefnu'r diwrnod.

Yr Athro John Gwynfor Jones yn derbyn y gadwyn a llywyddiaeth Y Cymrodorion oddi wrth Brynmor Jones

Y Parchedig Kevin Davies gyda Elen Lewis ac Eirlys Davies ym Merched y Wawr Bro Radur

Cafwyd etholiadau dosbarth ar ddechrau'r tynor er mwyn ethol cynrychiolwyr ar gyfer Cyngor yr Ysgol. Mae'r disgyblion yn frwdfrydig iawn ac yn llawn syniadau byrlymus!

Côrdydd yn croesawu cyfansoddwr o fri

Mae Côrdydd yn falch iawn o groesawu un o brif cyfansoddwyr corawl yr Unfed Ganrif ar Hugain i Gaerdydd ym mis Tachwedd. Mae Eric Whitacre, cyfansoddwr corawl o'r Amerig, newydd arwyddo cytundeb gyda Decca ac mae e'n ymweld â Chymru am y tro cyntaf erioed i berfformio mewn cyngerdd gyda Chôrdydd.

Bydd Côrdydd a'u gwesteion arbennig, Cywair a Chôr Bach Abertawe, yn perfformio mewn noson o gerddoriaeth poblogaidd Whitacre a chyfansoddwyr eraill, ar Dachwedd 6ed 2010, yn Neuadd Hoddinott, Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd, a hynny o dan faton Eric Whitacre ei hun.

Ôl Lwybrau

Fel hanesydd yr wyf yn gyfarwydd â theithio'n feddyliol nôl i'r gorffennol, ac olrhain dylanwadau niferus yr oes a fu ar ein byd ni heddiw. Mae fy mhrosiect presennol, 'Cymry'r Rhyfel Mawr Ar-lein' yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn, gan fod creithiau 1914-1918 yn dal ar hyd a lled Cymru, ac wrth ddechrau ar yr ymchwil rwyf wedi darganfod nifer o ffeithiau am ddylanwad y rhyfel ar fy nheulu fy hun.

Amcan y prosiect yw dod o hyd i ddeunydd yn ymwneud â'r Rhyfel Mawr sydd yn nwylo preifat ac yna rhannu'r wybodaeth ar y we. Rydym eisoes wedi casglu eitemau sy'n tanlinellu cymaint oedd argraff y rhyfel byd-eang ar gymunedau a theuluoedd ar draws Cymru.

Roeddwn yn ymwybodol bod gen i dri hen-ewythr oedd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rhwng 1914 a 1918, ond dim ond wrth gychwyn ar y prosiect hwn y sylweddolais gwir ddylanwad y rhyfel ar fy nheulu. Wedi'u gwasgaru o gwmpas aelodau'r teulu, mae nifer o greiriau a ddanfonodd un hen-ewythr, Ivor Phillips, o'r ffosydd yn Ffrainc a Fflandrys – cardiau post, darn o sidan wedi'i addurno â llun o Ypres, a Chroes ar *rosary*, a oedd yn siŵr o fod yn newyddbeth i deulu o Anghydffurfwyr.

Yn eu hunain, efallai nid yw'r eitemau hyn yn dweud llawer wrth yr hanesydd, ond os ystyrir bod 81 o enwau ar Rôl Anrhydedd capel Ivor, Caersalem Newydd, Tre-boeth, yn ymfalchïo yng nghyfraniad aelodau'r capel i ymdrechion y rhyfel, mae hynny'n rhoi syniad o ba mor ddwfn oedd crafangau'r rhyfel wedi treiddio i'r gymuned honno. Yn ogystal â'r effaith ar y dynion eu hunain, roedd y pedair blwyddyn o ymladd creulon yn golygu newidiadau lu i'r bobl nôl adre, ac nid dim ond i'r rhai a boenai am eu hanwyliaid. Roedd miloedd lawer o ferched Cymru yn gwasanaethu yn y ffatrïoedd arfau: gês i syndod i ddysgu bod un hen-fodryb i mi yn eu plith.

Fy ngobaith gyda'r prosiect yw creu archif genedlaethol a fydd yn coffáu aberth pobl Cymru yn ystod y Rhyfel Mawr, ac a fydd o ddefnydd i haneswyr nawr ac yn y dyfodol i geisio deall sut newidiodd y rhyfel yr hyn a ddigwyddai yn ein gwlad.

Am fwy o wybodaeth am y prosiect, neu i gyfrannu unrhyw wybodaeth sydd gennych, ewch i www.rhyfelmawr.com

Dr Gethin Matthews, Prifysgol Caerdydd

Y Cymrodorion

Yng nghyfarfod agoriadol y Cymrodorion, arwisgwyd yr Athro John Gwynfor Jones yn Llywydd am y flwyddyn. Yn ôl y traddodiad, y Llywydd newydd sy'n gyfrifol am y noson gyntaf a darlith bwysig gawsom gan John Gwynfor ar y testun 'Gweinidogion yr Efengyl a'r Ymwybyddiaeth Ddinesig Gymreig yng Nghaerdydd 1880-1939'.

Ers y cyfnod hwnnw mae Caerdydd wedi newid y tu hwnt i ddychymyg y cymeriadau lliwgar oedd ymysg y rhai a ddaeth o gefn gwlad Cymru ac a weithiodd mor ddygn fel sylfeinwyr y Cymrodorion yng Nghaerdydd. Eu nod oedd sicrhau parhad yr iaith a ffyniant y diwylliant Cymreig yma ac rydym yn dal yn eu dyled.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg tyfodd Caerdydd o fod yn fwrdeistref fechan i fod erbyn 1891 yn gartref i 22,000 o Gymry Cymraeg. Cynyddodd y boblogaeth yn anferthol a'r mwyafrif bellach yn ddi- Gymraeg.

Roedd hwn yn gyfnod o ferw diwylliannol ac o dwf yn yr ymwybyddiaeth Anghydffurfiol ac roedd y Cymrodorion a'u harweinwyr yn allweddol yn y bywyd hwnnw. Clywsom gan John Gwynfor am yr eglwysi a sefydlwyd yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda'u hymwybyddiaeth Ymneilltuol a Radical, ac yn arbennig clywsom am y gweinidogion a chwaraeodd ran mor bwysig ym mywyd dinesig Caerdydd ac ym mywyd y genedl.

Roedd y gweinidogion hyn i gyd yn aelodau gweithgar o'r Cymrodorion. Buont yn ymladd dros ddysgu'r iaith yn yr ysgolion ond erbyn 1929 roedd y mwyafrif o'r plant yn cael eu magu'n ddi-Gymraeg a hyd yn oed y Cymrodorion yn Seisnigeiddio. Yn wir, mae llythyr ar gael gan un aelod yn datgan ei fwriad i adael y gymdeithas oherwydd ei Seisnigrwydd, a'i ergyd ddeifiol yw ei fod yn ysgrifennu yn Saesneg er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y neges! Parhaodd y frwydr dros yr iaith yn arbennig yn y capeli ac o fewn y Cymrodorion, a dylem ninnau heddiw gydnabod ein dyled i'r rhai fu'n cadw'r iaith yn fyw fel sail i'r diwylliant sydd gennym yma heddiw.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar y 5ed o Dachwedd am 7.00 y.h. yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd lle fydd Peter Keelan yn ein hannerch ar 'Hanes a chynnwys casgliad llyfrau prin Dinas Caerdydd' a bydd cyfle arbennig i weld rhai o'r trysorau a drafodir.

Rhiannon Havard

Merched y Wawr Bro Radur

Croesawyd tua hanner cant ohonom i gyfarfod cyntaf y tymor dan ein Llywydd, Elsbeth Edwards. Atgoffodd ni am lwyddiant nifer o'r aelodau mewn cystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy. Diolchodd Eirlys Davies, Trefnydd y De Ddwyrain i'r aelodau am eu rhan yng nghyflwyniad y Rhanbarth ar y prif lwyfan a'r gefnogaeth i babell y mudiad ar y Maes.

Y Parchedig Kevin Davies oedd y gwestai ar y noson gyntaf. Rhannodd ei syniadau a'n rhoi ar y llwybr cywir wrth osod blodau. Defnyddiodd Dymor y Diolch a'r Cynhaeaf fel ei thema. Enillodd dwy aelod lwcus Elen Lewis ac Eirlys Davies, drefniant o flodau.

Ym mis Hydref daeth Gwyneth a Ieuan R. Evans i siarad am Grochenwaith Ewenni. Mae'r ddau yn arbenigwyr ar grochenwaith De Cymru ac wedi cyhoeddi llyfr swmpus, llawn lluniau, 'Ewenny Potteries, Potters and Pots' yn 2001. Daethon nhw ag arddangosfa hyfryd o wahanol lestri yn dyddio nôl i 1775. Cawsom hanes diddorol y teulu Jenkins a sefydlodd y crochendy yn y Fro. Y ddihareb ar hafan ei gwefan www.ewennypottery.com sy'n cwmpasu traddodiad unigryw'r crochendy hwn yw *'Gwell crefft na golud'*.

Dataglo

Gwasanaeth gweinyddol ac ysgrifenyddol

Os hoffech help gyda gwaith swyddfa o bob math, cofnodion cyfarfodydd, neu i drefnu digwyddiad neu gyfarfod,
ffoniwch 07779 360614
ebost: heulwen@dataglo.com

Telerau rhesymol

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun, Hydref 18fed cafwyd darlith ddiddorol dros ben gan Arwyn Tomos Jones o Adran Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd. Teitl y ddarlith oedd 'Peirianneg Meinweol', ond soniodd Arwyn y gellid bod wedi defnyddio 'Tomatos Anhygoel' yn deitl, gan roedd yn tynnu ar ei brofiad o dyfu tomatos i ddarlunio agweddau o'i ddarlith!

Cnewyllyn y ddarlith oedd y broblem o atgyweirio niwed i feinweoedd fel clwyfau dwfn, clefyd dirywiad macwlar ar y llygaid, trwsio cartilag athletwyr neu hyd yn oed atgyweirio niwed i'r ymennydd trwy effeithiau clefyd Parkinson. Mae gwyddonwyr o sawl disgyblaeth – fferylliaeth, cemeg a pheirianneg - yn cydweithio i geisio datrys y problemau.

Mae'r cynigion mwyaf addawol hyd yma yn defnyddio dulliau 'troi amser yn ôl' mewn celloedd croen i'w troi yn gelloedd bôn cyn eu trawsnewid i nifer o fathau o gelloedd eraill. Gan fod y celloedd wedi dod o'r un unigolyn, does dim problemau gyda'r corff yn gwrthod y celloedd.

Dangoswyd clipiau fideo trawiadol o gelloedd calon a grëwyd mewn labordy yn cyd-symud gyda'i gilydd, yn union fel calon! I orffen cyfeiriwyd at rai llwyddiannau diweddar, yn arbennig un achos lle adeiladwyd pibell wynt newydd i fachgen ifanc, gan ddefnyddio celloedd o'i groen wedi eu trawsnewid yn gelloedd pibell wynt.

Yn ein cyfarfod nesaf (Tachwedd 15) bydd Neville Evans yn annerch gyda'r testun, E.G.Bowen a Brwydr Prydain.

Ym mis Mehefin eleni estynnodd ein cymdeithas her farddonol, sef, Gwahoddiad i Farddoni. Derbyniwyd 60 cynnig gan ddisgyblion tair ysgol, Ysgol Gyfun Plasmawr, Ysgol Gynradd Pencae, Ysgol Gynradd Y Berllan Deg. Diolchwn yn wresog i'r beirdd am eu cynigion ac am ansawdd uchel eu deunydd, yn wyddonol ddiogel ac yn ddychmygol ddwys. Dosbarthwyd anrhegion diolch i bob ymgeisydd, gyda diolch i gwmni Gweld Gwyddoniaeth a'r Sefydliad Ffiseg yng Nghymru. At hyn rhoddodd ein cymdeithas wobr (tocyn £10 am lyfrau Cymraeg) i'r buddugwyr, sef, Cara Bennett, Megan Manley, Megan Mead, Rhys Hopkins, Gwenno Williams.

Nid oedd cyfyngiad ar oedran cystadleuwyr. Os cynhelir y Gwahoddiad eto y flwyddyn nesaf, disgwyliwn gynigion gan feirdd profiadol, megis yr Archdderwydd, gan na fydd hawl ganddo i gynnig yn Y Genedlaethol. Amser sbâr felly.

Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin Radur a Phentre-Poeth

Bydd y Cylch yn cynnal y digwyddiadau canlynol yn ystod y tymor er mwyn codi arian ar gyfer y Cylch:
- Wythnos Pobi a Gwerthu Cacennau: 8-12 Tachwedd.
- Noson i'r Merched Pryd ac Ocsiwn: Nos Iau 18 Tachwedd am 8 o'r gloch yn Y Mochyn Du
- Ffair Nadolig Sali Mali: Dydd Sadwrn 11 Rhagfyr rhwng 11am a 1pm yn Neuaddau'r Hen Eglwys, Radur.

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 07817 770312 neu anfonwch e-bost at bethan.edwards2@btopenworld.com

Glas y Sierra

Mae'r Dref Wen newydd gyhoeddi *Glas y Sierra: Taith trwy ddwyrain Sbaen*, llyfr diweddaraf Roger Boore o'r Eglwys Newydd. Yn y llyfr awn gyda'r awdur, ei wraig, a'u hen Volvo Estate cleisiog ar siwrnai ymysg rhai o fannau dirgelaidd dwyreindir Sbaen, llen nad yw'r rhelyw o dwristiaid byth yn treiddio.

£4.99 yw'r llyfr - anrheg ddelfrydol i'r hosan Nadolig!

Panto Martyn Geraint

Daw Cwmni Martyn Geraint a'u pantomeim newydd - *Martyn Geraint a'r Lamp Hudol* (Aladdin) i Gaerdydd ym mis Rhagfyr. Mae'r sioe fywiog a chyffrous hon yn sicr o hudo a diddanu pobl o bob oed.

Bydd y sioe yng Nghanolfan y Mileniwm rhwng 5 a 7 Rhagfyr. Am fanylion, ac i fwcio, ffoniwch 20636464, neu ewch i www.wmc.org.uk

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Unwaith eto, cychwynnodd yr Aelwyd Hamdden ar raglen lawn am y gaeaf a'r gwanwyn bob pythefnos am 2 o'r gloch yn Festri Capel Minny Street.

Yn y cyfarfod cyntaf, cyflwynodd yr actor poblogaidd a byrlymus, John Pierce Jones (Mr Picton, C'mon Midffild), sgwrs ar ei fywyd o Sir Fôn i lwyfannau ar draws gwlad a byd.

Cafwyd tipyn o Frethyn Cartref yn yr ail gyfarfod, pan gyflwynodd dau aelod, y cerddor dawnus Eilonwy Jones a'r chwaraewr snwcer brwdfrydig a medrus Rhys Morgan, eu trysorau a'u hanes. Ym mis Hydref daeth Mair Morris a chasgliad o ddillad amrywiol o'r oes a fu, gan roi cyfle i'r aelodau hel atgofion am ffasiwn yng Nghymru gynt.

Wedi'r daith i Arddgoed Westonbirt ar Hydref 20fed, bydd Carys Tudor Williams yn ein tywys i "Ffin a Ffynnon" ar Dachwedd 3ydd.

Estynnir gwahoddiad i ragor o ffrindiau ymuno â'r cwmni croesawgar dan lywyddiaeth Mair Morgan. Croeso cynnes i bawb!

Dilyn y Ddawns

Llongyfarchiadau mawr i Non Griffiths, sy'n ddisgybl Blwyddyn 9 yn Ysgol Pantmawr am ennill 'New York Dance and Performance Award' am ei rhan mewn cyflwyniad gan y coreograffydd fyd enwog Sarah Michelson.

Mae Non wedi bod yn gweithio yn theatr Chapter gyda Sarah Michelson ers 2008, ac ar hyn o bryd mae'n ymarfer yn Efrog Newydd ar gyfer cyflwyniad newydd y cwmni 'Narrative Ballet on the Subject of Martyrdom'. Meddai ei thad balch Huw, "Mae Non wedi bod yn dawnsio ers oedd hi'n 3 mlwydd oed gydag Ysgol Ddawns Mandy Morris yng nghanolfan Chapter. Mae'n dod o gartref gwbl Gymreig gyda'i rhieni yn dod o Aberdâr (fi) a Llanbedr Pont Steffan (mam)". Edrychwn ymlaen at ei chroesawu nôl i ddawnsio yng Nghaerdydd,.

Bwys am bwys Baffiwr gorau'r Byd

Bob prynhawn dydd Mercher byddai fy nhad yn cael hanner dydd o'u fferyllfa ac weithiau byddai hyn yn cyd -fynd gydag amser gwyliau'r ysgol. Ar adegau felly byddai'n manteisio ar y cyfle i dorri'i wallt, neu fynd i Lôn y Pobydd yn y dref i gael petrol i'r car. Rhan o siop 'Howells' oedd yr orsaf petrol un-pwmp a gallai fe wedi cael petrol yn Hewl Albany yn agos at ei siop ond roedd rhywun arbennig yn Lôn y Pobydd: dyn bach â gwallt lliw arian, gwên parod â wyneb fel angel a byddai byth yn brifo cleren. 'Dere mas o'r car' dwedodd fy nhad, 'rwy'n mo'yn i ti gwrdd â rhywun'.

Des i o'r car a dwedodd fy nhad, 'Dyma Jimmy Wilde bwys am bwys baffiwr gorau'r byd. Deng mlynedd ar ôl hynny a minnau yn f'ugeiniau cynnar, es i mewn i Dafarn y Globe (a enwir erbyn heddiw yn 'Dempsey's). A phwy oedd yna ond Jimmy Wilde? Roedd e ar ei ben ei hunan ac felly wnes i fentro cael sgwrs ag e. Ges i groeso cynnes a sgwrs ddiddorol am ei fywyd yn y cylch paffio. Roedd yn cofio fy nhad, fel cwsmer da yn llenwi tanc ei gar â phetrol yn Lôn y Pobydd.

Welais i ddim ohono ar ôl hynny ond sawl flwyddyn wedyn, welais erthygl yn y papur yn talu teyrnged iddo ar achlysur ei farwolaeth. Nawr roedd Jack Dempsey yn baffiwr o fri ond heb y cannoedd o goncwestau oedd gan Jimmy Wilde. Nid yw proffwyd heb anrhydedd, ond yn ei wlad ei hun.

Mae'n hen bryd bod cerflun neu gydnabyddiaeth o ryw fath yn cael ei chodi i goffau'r paffiwr Jimmy Wilde - oedd Bwys am Bwys Baffiwr gorau'r Byd.

Owen John Thomas

CROESAIR
Rhif 107
gan
Rhian Williams

Atebion i:
22, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN
i gyrraedd erbyn
18 Tachwedd 2010.



Ar Draws

6. '___ ___ ___ ochain,
F'unig haeddiant i oedd hwn.' (W.W) (5,5,3)
8. Darlun o eglurdeb heb ddechrau deall (7)
9. At bwy y trown i gael ymborthi (5)
10. Cael cyfnod yn lluest y morwr (5)
12. Prancio o gwmpas neu ymlusgo (7)
13. '___ __ Brenin hedd
A'i eiddo i gyd yn brudd.' (J.T) (1'2,4)
15. Moses, y broffwydes a'r bwyd o'r nef (5)
16. 'Ond ymddiriedaf yn fy Nuw
Mae'r ____ sicraf fry' (P.J) (5)
17. Smalio fod llawer ci ar ddisberod (7)
19. 'Panio'r pincs a'r rhosys cochion,
Torri pwysi o ___ ___' (tradd) (6,7)

I Lawr

1. Ar yn ail uwch heol o bwysigrwydd mawr (4)
2. Calon dadl dyn dewr neu heliwr (6)
3. Amser i ddechrau sylwi ar ieithoedd byd (4)
4. Taro Clob yn yfflon yng nghanol y siop (6)
5. Ffaeleddau amrywiol ffin y diog (8)
6. Y tipyn annedd bregus a lle i 50 anaeddfed (11)
7. 'O! na ddeuai chwa i'm suo
___ ___ ___ ddistaw, bell.' (Cynan) (1,4,6)
11. Clodfori a chyffroi un o Milan (8)
12. Cywasgu'r cyfryw un bach (3)
14. 'Addoliad, mawl a bendith
___ ___ ___ rown i'r Iesu' (cyf WOE) (1,4,1)
15. Pydredd bragod y frenhines (6)
17. Un o Gaernarfon yn hanner palu y brig (4)
18. Cyfandir yn rhan o'r pasiant. (4)

Atebion Croesair Rhif 106

Ar draws: 1 Goleudy. 7 Mirain. 8 Diflino. 10 Ffroen. 11 Morfilod. 13 Oer. 14 Bron. 15 Dial. 16 Yno. 18 Erchylltra. 19 Enaid. 21 Ar yn ail. 23 Gerwin. 24 Cigfran.

I Lawr. 1 Gad im glywed. 2 Lef. 3 Unieithog. 4 Ymosod. 5 Craff. 6 Diddorol. 9 Yn grwm o blin. 12 Digymysg. 14 Botaneg. 17 Irlanc. 20 Dawn. 22 Aur.

Croesair Rhif 106

Derbyniwyd 4 ymgais a phob un yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Idwal Hughes, Y Mynydd Bychan.

Cardiau Nadolig

Mae dewis mawr o gardiau Cymraeg a dwyieithog ar werth yn awr yn Siopa Teg, y siop masnach deg yn Nhreganna. Eleni mae 17 cynllun gwahanol. Gwell nag erioed! Wrth brynu'r cardiau, byddwch yn cefnogi gwaith Traidcraft, Cymorth Cristnogol a CAFOD. Am ragor o fanylion, ffoniwch 029 2022 2066, neu e-bostiwch jtucker@fairdos.com

PASPORT

Bethan Griffiths,

merch o Gaerffili

sy'n cael ei holi y mis yma...

Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?
Wy'n byw yn Grangetown ers deng mlynedd, ond erbyn bydd hwn wedi ei gyhoeddi byddwn ni wedi symud mas i'r 'suburbs'.

Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?
Wy'n byw ma ers16 mlynedd

Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?
Des i i Gaerdydd i'r coleg (yr holl ffordd dros y mynydd o Gaerffili) i astudio'r Gyfraith a Ffrangeg, a wy yma byth ers hynny. Wy'n gweithio i Fwrdd yr Iaith ers dros ddeng mlynedd, yn yr Uned Ewropeaidd yn wreiddiol ond erbyn hyn wy'n gweithio yn y Tîm Datblygu Cymunedol ar gynllun Twf, sy'n annog rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Wy'n briod ag Owain ers tair blynedd ac yn fam i ddau o blant bach bishi.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?
DIY, darllen a chysgu yw'r tri phrif ddiddordeb, hynny yw pan mae'r plantos wedi noswylio. Gan ein bod ni ar fin symud wy'n treulio lot o amser yn meddwl am baent ar hyn o bryd ac yn drysu dros y cannoedd o wahanol 'shades' o wyn sydd i'w gael.

Be sy'n gwneud i ti chwerthin?
Sgwrsio diddiwedd Luned Glain sy'n ddwy a hanner, a drygioni Meredydd Gwyn sy'n 10 mis. Hefyd, popeth bron sy'n dod o enau Rob Brydon.

Beth sy'n dy wylltio di?
Gyrwyr gwyllt Grangetown a'r problemau gyda darpariaeth addysg Gymraeg y ddinas.

Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?
Wy newydd orffen fy ail gyfnod mamolaeth a wy'n mynd i weld ishe joio gyda'r plantos yn Ti a Fi Grangetown bob bore Iau. Mae Cafe Junior yn Cathays, Parc yn Grangetown a Jump yn Llanisien wedi bod yn ffefrynnau dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd.

Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?
Rhywle ble mae haul twym, traeth a môr.

Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?
Wy'n dwlu bo Caerdydd yn ddinesig ac yn gymuned fyw o siaradwyr Cymraeg ifanc. Mae popeth o fewn cyrraedd rhwydd ac mae'r siopa wedi gwella mas draw dros y flwyddyn ddiwethaf.

Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?
Fydda i'n dal i fyw yng Nghaerdydd gobeithio, os na fydd fy ngŵr wedi cael ei ffordd a'n herwgipio ni gyd i'r gorllewin i fyw!

Ysgol y Berllan Deg

Cyngor yr Ysgol a'r Pwyllgor Eco
Daeth Robin McBryde i'r ysgol i gyflwyno'r Cyngor newydd sef Mali Robertson, Ffion North, Layla Agha, Ffion Sullivan, Daniel Jones, Jac Young, Ioan Lloyd, Caitlin Jones, Georgia Hicks, Rosie Lindhardsen. Diolch yn fawr iddo am ei amser a phob lwc i'r Sgarlets a Chymru am y tymor. Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol am gael eu dewis i fod ar y Pwyllgor Eco: Larua Coates, Macsen Jones, Harry Appleby, Nia Hixson, Llew James, Hannah Watson, Gwenllian Mears, Joshua James, Joel James, Nia Greenwood, Arianwen Evans, Finn Evans.

Trip
Mwynhaodd Blwyddyn 4 eu hymweliad addysgiadol i Pets at Home yn dysgu am yr holl anifeiliaid anwes.

Diwrnod T Llew Jones
Cafwyd diwrnod i ddathlu bywyd a gwaith T Llew Jones. Bu pawb yn brysur yn creu posteri am ei fywyd a daeth pawb i'r ysgol ar y diwrnod wedi gwisgo fel cymeriad o'i nofelau.

Bosys y Berllan
Mae Bosys y Berllan wedi bod ymhob dosbarth yn annog y disgyblion i greu nwyddau ar gyfer eu gwerthu ar noson y Ffrindiau, Tachwedd 18fed.

Dymuniadau gorau
Dymuniadau gorau i Rhian Thomas ac Amy Marsden yn ystod eu cyfnod mamolaeth. Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Louise Holmes ar enedigaeth merch Ellie-May.

Ffair Lyfrau

Mae Cymdeithas Bob Owen yn fudiad sy'n trefnu Ffeiriau Llyfrau Hynafiaethol ac Ail-law, recordiau ayb dros Gymru. Eleni am y tro cyntaf, mae'r Gymdeithas yn cynnal Ffair yng Nghaerdydd yn Y Ganolfan Wallich, Heol y Gadeirlan ar 4 Rhagfyr. Mae croeso i unrhyw un logi bwrdd os ydynt angen gwerthu llyfrau ayb. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Mel Williams 01678540652 ar tanycastell@yahoo.com

Hysbysebu yn y Dinesydd

Tudalen Gyfan A4: £200
Hanner Tudalen A4: £110
Chwarter Tudalen A4: £60
Wythfed Tudalen A4: £35

Gosod taflen ar wahân £100 - £250

Cysylltwch â hysbysebu@dinesydd.com neu Meleri Beynon, Menter Caerdydd 029 20689888

www.dinesydd.com

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Cwmni Theatr Arad Goch
yn cyflwyno
Cwrw, Chips a Darlith Deg
Nos Wener, Tachwedd 12
Neuadd Llanofer, Treganna
7.30pm
Oedolion: £7
Myfyrwyr o dan 18: £5
Tocynnau ar gael drwy gysylltu â'r Fenter
029 20 689 888
www.mentercaerdydd.org

Noddir y noson gan gynllun
Noson Allan

Cwis Tafarn y Mochyn Du

Fe fydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Tachwedd 28 yn y Mochyn Du. 8pm. Croeso i bawb!

Ffônlyfr 2011

Mae'n fwriad gan y Fenter i gynhyrchu Ffônlyfr 2011 yn y flwyddyn newydd, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu enwau ar ei gyfer.

Bwriad y Ffônlyfr yw cyhoeddi rhifau ffôn ac enwau cyswllt ar gyfer unigolion neu fusnesau sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas.

Rydym yn chwilio am unigolion a chwmniau o bob maes gan gynnwys cyfreithwyr, adeiladwyr, cyfrifwyr, cwmniau dylunio, gofal plant, tiwtoriaid a llawer mwy.

Os ydych chi'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n adnabod rhywun fyddai'n awyddus bod yn rhan o'r Ffônlyfr, cysylltwch â Leanne – 20 689888 leanne@mentercaerdydd.org

Cyrsiau Undydd i Oedolion

Mae'r Fenter wrthi'n trefnu amserlen amrywiol o gyrsiau undydd i'w cynnal cyn y Nadolig dan nawdd y Cyngor Sir. Fe fydd y cyrsiau i gyd yn cael eu cynnal ddydd Sadwrn, Rhagfyr y 4ydd.

Mae'r trefniadau a'r wybodaeth derfynol ar ein gwefan, ac fe fydd y cyrsiau yn cynnwys Ffotograffiaeth, Blasu Gwin, Gosod Blodau, Coginio, Hanes, a Yoga.

Ewch i wefan y Fenter am fwy o fanylion am ein gweithgareddau i oedolion – www.mentercaerdydd.org

Ysgol Mynydd Bychan

Cafodd pob dosbarth y cyfle i ddathlu 'Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd' gyda llu o weithgareddau amrywiol a gwreiddiol! Penderfynodd y dosbarthiadau ymchwilio i'r dosbarthiadau canlynol
Y Feithrin – Ffrainc, Dosbarth Derbyn – Yr Alban, Blwyddyn 1 - Yr Eidal, Blwyddyn 2 – Iwerddon, Blwyddyn 3 – Sbaen, Blwyddyn 4 – Yr Almaen, Blwyddyn 5 – Malta a Blwyddyn 6 - Yr Iseldiroedd.

Roedd pob dosbarth wedi gwisgo dillad lliwiau baneri eu gwledydd, a thrwy gwneud hynny, casglu arian tuag at yr asiantaethau sy'n ymdrechu i gynorthwyo trigolion Pakistan wedi'r llifogydd yno. Casglwyd bron i £250.

O ran gweithgareddau, cafodd y plant y cyfle i goginio bwydydd traddodiadol, dawnsio, dysgu ymadroddion syml yn yr amrywiaeth o ieithoedd a chanu anthemau cenedlaethol. Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau daeth ymwelwyr i siarad am y gwledydd dan sylw.

Cawsom oedfa Ddiolchgarwch hyfryd yn ystod mis Hydref pan gawsom y fraint o groesawu'r Parchg. Glyn Tudno Jones o gapel y Crwys i'n hannerch. Mwynhaodd y plant ei stori am yr oren 'Jaffa'. Roedd bwrdd y cynhaeaf wedi ei addurno gyda llysiau a dyfwyd gan blant yr ysgol yn ein rhandir, yn ogystal a threfniant blodau chwaethus yr olwg – ffrwyth llafur ein pennaeth!

Danfonwyd y rhoddion bwyd i ganolfan Huggard ar gyfer y di-gartref.

Cyfarfod Blynyddol Menter Caerdydd

Nos Lun, Tachwedd 8, 2010
7pm
Swyddfa Menter Caerdydd
42 Lambourne Crescent,
Parc Tŷ Glas
Llanisien

menter@caerdydd.org

Clwb Gwawr Caerdydd

Cafwyd noson lwyddiannus arall yng Nghlwb Gwawr Caerdydd mis Hydref wrth i Trudy Heald a Catrin Smith ddangos i ni sut i fynd ati i wneud gemwaith gydag amrywiol fwclis. Roedd y campweithiau ar ddiwedd y noson yn werth i'w gweld. Pwy a ŵyr na fydd rhai yn troi at hyn fel diddordeb neu fusnes rhyw ddydd!

Mis Tachwedd fe fyddwn ni'n cael noson o ddawnsio Lladin yn festri Capel Salem, Treganna ar Dachwedd 4ydd ac yn mynd i siopa i Cheltenham ym mis Rhagfyr.

Mae'r clwb yn cyfarfod fel rheol yn Nhafarn Y Cricketers, Heol y Gadeirlan, Caerdydd ar nos Iau cynta'r mis. Os am fanylion pellach am y clwb cysylltwch gyda clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu ewch i'n tudalen Facebook: clwbgwawrcaerdydd neu Twitter clwbgwawrcdydd

Ysgol Pwll Coch

Croeso nôl i Mrs Tracey Rees ar ol iddi gael anaf ddechrau'r tymor wrth gwympo lawr y grisiau!! Diolch byth mae'n holliach yn awr. Hoffwn groesawu dau athro newydd sef, Mrs Mari Hughes ym Mlwyddyn 1 a Mr Alex Lewis ym Mlwyddyn 5. Rydym hefyd yn falch iawn o groesawu nôl Eleri David i'r Feithrin, ac estyn croeso mawr i Mr Marc Richards ym Mlwyddyn 1.

Buodd y plant yn lwcus iawn ar ddechrau't tymor i gael y profiad o fynd ar dripiau Preswyl i Abercraf a Llangrannog. Aeth Blwyddyn 4 ar ymweliad i Sain Ffagan ar helfa bwystfilod bach a bu blwyddyn 6 ar ymweliad i gastell Cyfarthfa.

Aeth grŵp o blant Blwyddyn 4 i ddathlu diwrnod ieithoedd Ewrop gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y ddinas, i godi ymwybyddiaeth am wahanol ieithoedd. Perfformiodd y plant gasgliad o ganeuon Cymraeg. Ar ddiwedd y dathliad cafodd y plant gyfle i ddawnsio'r samba. Diolch i Mrs Cole a Miss Griffiths am eu cefnogi a'u hyfforddi.

Yn flynyddol bellach buom yn mynychu Eglwys St John's i gymryd rhan mewn gwasanaeth cynhaeaf. Perfformiodd y côr yn arbennig. Mae'r côr wedi tyfu ac maent yn mynd ar lu o ymweliadau. Daliwch ati. Diolch yn arbennig i Miss Griffiths am ei gwaith caled.

Newyddion o'r Eglwysi

Salem Treganna

Bedyddiwyd Beca, merch Dyfrig a Gwawr yn Salem ar y 3ydd o Hydref. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Cawsom wasanaeth diolchgarwch arbennig iawn. Paratowyd y gwasanaeth gan yr ysgol Sul, a chafwyd canu a darllen hyfryd gan y plant ieuengaf, yn ogystal â chyfraniadau dramatig gan y bobl ifanc. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at y casgliad arbennig tuag at lifogydd Pacistan drwy law Cymorth Cristnogol. Hyfryd hefyd oedd croesawu Ysgol Treganna i gynnal eu gwasanaeth diolchgarwch yn Salem.

Daeth grŵp canu at ei gilydd o dan ofal Geraint Cynan er mwyn cyfrannu tuag at wasanaethau achlysurol, a bydd y cyntaf ar y 5ed o Ragfyr. Cawsom awr hwyliog iawn wrth i bawb o bob oedran ddod at ei gilydd i fwynhau'r canu!

Trefnwyd rhaglen ar gyfer y flwyddyn dros bryd o fwyd yn y tŷ bwyta Thai newydd yn Nhreganna. Bu'n noson yn llawn hwyl ac mae'n argoeli i fod yn flwyddyn lwyddiannus eto i Cis.

Cyfarfu'r clwb fore Mercher y 6ed ar 20fed – croeso i chi ymuno â ni gyda'ch babanod a phlant o dan oed meithrin yn ystafell Edwin, am 9.45 ddwywaith y mis.

Tabernacl, Yr Ais

Cyflwyno Medi Hughes
Braint i ni oedd bod yn rhan o gynulleidfa a rannodd lawenydd Geran ac Angie Hughes wrth iddynt gyflwyno eu plentyn Medi. Roedd hithau'n wengar iawn ac wrth ei bodd yng nghwmni ei theulu. Da oedd gweld Meuryn, Julie a Dewi Rhys yn yr oedfa, ac roedd cefnogaeth Delun, John ac Iona yn amlwg i bawb.

Genedigaeth
Rhannwn lawenydd Guto a Ruth wrth iddynt groesawu ail blentyn i'w haelwyd. Ganwyd Jack Morgan Thomas ganol mis Medi -ac mewn da bryd i groesawu tad-cu a mam-gu, sef Huw a Siân Thomas yn ôl o'u gwyliau tramor.

Priodas Ddiemwnt
Bydd holl ffrindiau Ron a Gwyneth Thomas yn falch o ddeall i'r cyfeillion hyn ddathlu eu priodas ddiemwnt ganol mis Medi. Bu'n briodas ddedwydd iawn ar hyd y degawdau, a bellach mae Ron yn dangos ei fedrusrwydd yn gofalu am yr agweddau o gadw tŷ.

Gefeillio gyda Sefika, Lesotho
Diolch i Siwan Sloman am ei chyfraniad i hyrwyddo'r prosiect dros y blynyddoedd diweddar. Bydd hithau'n estyn yr awenau i ddwylo medrus Eluned Owen Rook, a hynny i gefnogi'r gweithgarwch pwysig hwn yng ngwaith yr eglwys. Codwyd £400 ar yr achlysur hwn a diolch i Margaret a Howard Evans am eu croeso.. Daeth cyfle i bawb ddangos cefnogaeth wrth i'r arwerthwyr profiadol yn y pwyllgor fentro i'r Gwerthiant Cist Car, ar ail Sadwrn fis Hydref.

Eglwys Dewi Sant

Diolchgarwch am y cynhaeaf
Roedd yr Eglwys wedi 'i haddurno'n gywrain iawn ar gyfer y gwasanaeth diolchgarwch ar Hydref 3ydd.

Llywyddwyd y gwasanaeth gan y ficer y Parch Hywel J Davies ac fe'i cynorthwywyd gan y Parchedig Athro Tomos Watkin. Archddiacon Caerfyrddin yr Hybarch A Wyn Evans oedd y pregethwr gwadd a hyfryd oedd cael ei groesawu ef a'i wraig yn ôl. Byrdwn ei neges oedd i ni ymdrechu i barchu'r adnoddau naturiol gwerthfawr a ymddiriedwyd i ni gan Dduw.

Ffarwelio
Dydd Sul 10fed Hydref oedd Sul olaf y Parch Hywel J Davies fel ficer yr eglwys . Talwyd teyrngedau gloyw iddo gan Rhys Jones a Margaret Hughes a rhoddwyd lluniau o'r eglwys a'r côr iddo gan Delyth Davies a Margaret Hughes a charden hyfryd gan y plant. Yn y ddwy flynedd y bu yn ficer cyfoethogodd fywyd a chenhadaeth yr eglwys yn sylweddol ac er mai swydd rhan- amser oedd, dywedwyd na fu dim byd rhan-amser yn ei weinidogaeth.

Fe wêl plant yr ysgol Sul ei eisiau gymaint â neb. Wedi'r gwasanaeth cafwyd gwin a chacen i ddymuno ymddeoliad hapus iddo wrth iddo ymgartrefu ym mro ei febyd yn Aberdâr.

Cydymdeimlo
Fel Eglwys estynnwn ein cydymdeimlad diffuant ag Eirwen a Gwyn Jones ar farwolaeth eu merch Dilwen Walters

Eglwys y Crwys

Y Grŵp Merched.
Cafodd y gymdeithas yma o fewn yr eglwys ddechrau da i'r tymor cyfredol gyda noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni y gŵr gwadd Iwan Guy. Roedd Iwan yn un o'r rhai a gafodd gyfle i fynd i ysgol gyfatebol yng Nghaerdydd, fe'i lleolwyd y pryd hynny yn Ysgol Grangetown lle mae Ysgol Gymraeg Llwyn yr Eos heddiw.

Y Gymdeithas.
Cafodd Y Gymdeithas ddechrau da i'r tymor hwn ar Nos Wener Medi 24ain pryd y gwahoddwyd Dyfrig Roberts i roi anerchiad ar ei swyddogaeth fel Arwyddfardd yr Orsedd ers 2002. Fe'i hadnabyddir fel Dyfrig ab Ifor yng nghylchoedd yr Eisteddfod. Cafwyd ganddo amlinelliad o'i gyfrifoldeb gweinyddol ar nifer o wahanol agweddau ar y seremonïau, y gorymdeithiau a'r mân drefniadau efallai na sy'n amlwg iawn i'r cyhoedd. Mynegwyd gair o werthfawrogiad gan Eleri Bines.

Yr Ysgol Sul.
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y plant ar fore Sul Hydref 17eg o dan gyfarwyddyd Sian Griffiths. Thema'r gwasanaeth eleni oedd y teulu ac fe dderbyniwyd yn anrhydeddus fwydydd addas i'w rhannu yn ogystal â swm sylweddol o arian. Yn ddiweddar croesawyd nifer o blant newydd i'r Ysgol Sul ac roedd eu gweld yn cymryd rhan yn galonogol iawn.

Cydymdeimlad.
Yn frawychus o sydyn ym Mis Hydref collwyd o'n plith y Dr. Ann Lloyd Jones, estynnwn ein cydymdeimlad mwyaf didwyll â Gareth, y merched, Ruth, Ceri, Rhiannon a'u teuluoedd.

Bethel, Rhiwbeina

Cynhaliwyd bore coffi a stondinau 'Bric a Brac' a chacennau er budd Bobath, canolfan therapi plant Cymru, yr Eglwys Newydd. Casglwyd dros ddau gant o bunnau yn ystod y bore a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dymunir gwellhad buan i Mr Eifion Hopwood, Penarth, wedi iddo gael triniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Gwnaeth criw o'r capel gyfarfod â Lisa a Hayley, cynrychiolwyr o fudiad *Teen Challenge* yn ddiweddar. Mudiad Cristnogol yw *Teen Challenge* sy'n helpu pobl sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol.

Mae Lisa'n gweithio mewn canolfan i ferched ym Mhenygroes. Bydd merched o bob rhan o Brydain, gyda phroblemau alcohol a chyffuriau yn cyrraedd y ganolfan a'r peth cyntaf yw sefydlu elfen o strwythur ym mywydau'r merched, y drefn mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei dilyn heb feddwl. Ond nid help ymarferol yn unig mae'r mudiad yn ei gynnig, ond help ysbrydol yn ogystal.

Rhannodd Hayley gyda ni'r ffordd y daeth hi, yn ifanc, i fod yn gaeth i gyffuriau, a bu hi o fewn trwch blewyn i golli ei bywyd. Ond tystiodd Hayley fod Duw wedi arbed ei bywyd i bwrpas. Daeth i gyswllt â mudiad *Teen Challenge* - ac nid yn unig y cafodd hi brofi gwellhad rhag caethiwed cyffuriau ond, yn ogystal, tystiodd sut yr oedd hi wedi cael profi cariad a maddeuant Iesu Grist. Roedd hi wedi bod yn cario euogrwydd yn faich am flynyddoedd, ond drwy ddarllen y Beibl a gweddïo gyda merched eraill, derbyniodd y maddeuant a'r heddwch yr oedd hi wedi bod yn dyheu amdano.

Minny Street

Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul
Yn yr Oedfa Ddiolchgarwch, cawsom ein hannog i ddiolch am y byd da rydym yn byw ynddo, gan gofio gofalu amdano a rhannu ei adnoddau'n deg. Er gwaetha'r arfer o rannu'r byd yn ôl ei gyfoeth yn Fyd Cyntaf, Ail a Thrydydd, pwysleisiodd y Gweinidog mai Un Byd ydym a phawb yn blant i Dduw. Yn dilyn yr oedfa, roedd y festri'n llawn ar gyfer Te Parti Masnach Deg. Llwyddwyd hefyd i werthu 90kg o reis gan y bobl ifanc – digon i addysgu plentyn un o ffermwyr Malawi.

Y Gymdeithas
'Llun o Wal fy Nghartref" oedd y pwnc dan sylw yn y Gymdeithas. Golygfeydd o sir Benfro oedd yn y ddau lun gan Valmai Evans - 'Fferm yr Hendre', gan Seiriol Davies, un o'n haelodau, ac 'Abereiddi' gan yr artist Seren Young. Llun nad oedd erioed wedi bod ar wal ei dŷ oedd gan Elwyn Hughes, sef yr argae yng Nghwm Elan. Er iddo geisio darganfod enw'r arlunydd, ofer fu ei ymdrechion! Dewisodd Ann Saer boster o waith Thomas Jones sef 'Adeiladau yn Napoli' a bu'n sôn am hanes diddorol Thomas Jones ac am apêl y llun iddi.

Cydymdeimlo
Cofiwn yn ddiolchgar am fywyd a chyfraniad yr Athro Ben Barr (Rhiwbeina) a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod, Sarah, ac â Sybil a James a'u teuluoedd

Ebeneser, Heol Siarl

Ebeneser
Cyflwyno siec
Cawsom gwmni Rhodri Davies ar ran Ambiwlans Awyr Cymru i dderbyn siec ar gyfer gwaith pwysig iawn y tri hofrennydd sy'n gwasanaethu Cymru. Dyma oedd ein helusen am y llynedd a llwyddwyd i godi £2250 ar gyfer y gwaith gwerthfawr hwn. Mae gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn gwbl ddibynnol ar gyfraniadau'r cyhoedd - am fwy o fanylion am eu gwaith ewch i'w gwefan, www.walesairambulance.com

Bedydd
Ar fore Sul, 17eg Hydref bedyddiwyd Rhys Daniel, mab Rhodri a Lucy Lewis, a brawd bach Owen. Roedd pawb wedi dotio at y bychan ac nid oedd neb yn fwy balch o'u hŵyr bach na Gill a Gethin Lewis. Roedd gwisg bedydd Rhys Daniel yn un eithaf arbennig, gan mai yn yr un wisg fedydd y cafodd ei hen dad-cu ei fedyddio sef tad Gill. Dymunwn bob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

Y Gymdeithas
Daeth Aelwyd y Waun Ddyfal atom i'n diddanu ym mis Hydref. Roedd perfformiad y côr, dan arweiniad medrus Huw Foulkes a'u cyfeilydd campus, Ieuan Jones, yn un gwefreiddiol. Cafwyd rhaglen amrywiol o ganiadau cyfoes ac roedd yn fraint cael profi o dalentau amryddawn unawdwyr o'r côr, Naomi Morris, Anni Llŷn, Elliw Mai a Rhys Griffiths. Dymunwn bob llwyddiant i'r côr wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth Côr Cymru 2011. Diolch i Glesni Whettleton a'r pwyllgor am drefnu. Cynigwyd y diolchiadau gan Arwel Peleg Williams.

Cydymdeimlo â ...

… Theulu'r diweddar Nan Cornforth a fu farw'n dawel ar 17 Hydref.

John Jones OBE

Bu farw yn ddiweddar un o gymwynaswyr y Gymraeg yng Ngwent. Brodor o Ryd y Fro, Cwm Tawe oedd William John Jones O.B.E. fu'n brif Swyddog Undeb y Siopwyr yng Nghymru ac yn Llywydd T.U.C. Cymru. Bu'n frwd yn yr ymdrech i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg yng Nghasnewydd ac wedyn Ysgol Uwchradd Gwynllyw. Roedd ymhlith y criw bach o Gymry wnaeth wahodd yr Eisteddfod i Gasnewydd yn 1988 ac yn gyfrifol am ei llwyddiant ariannol. Bu'n ddiacon yng Nghapel Mynydd Seion, Casnewydd ac Ebeneser Caerdydd, cyn hynny. Cydymdeimlwn â'i briod Ron ym Maesaleg.

Diolch

Dymuna Arwel Owen a'r teulu ddiolch i bawb a gyfrannodd er cof am Non. Trosglwyddwyd £3,255 i Ysbyty Felindre. Diolch yn wir.

Gwasanaeth newydd ar gyfer cleifion canser

Caiff cleifion canser gyfle i gael cefnogaeth ychwanegol gan Gofal Canser y Fron Cymru ar ôl i'r elusen sicrhau cyllid i sefydlu gwasanaeth newydd ar gyfer cynghori pobl ynghylch colli gwallt.

Mae Gofal Canser y Fron Cymru wedi cael grant o £10,000 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd i gynnig cyngor arbenigol i gleifion canser sy'n colli eu gwallt. Bydd gwasanaeth HeadStrong yn rhoi cyngor ymarferol a chefnogaeth emosiynol i unrhyw un sy'n colli gwallt o ganlyniad i driniaeth canser a bydd yn datblygu cysylltiadau newydd gydag ysbytai ac ymarferwyr ym maes cemotherapi

Ysgol Plasmawr

Cystadleuaeth Ddadlau CEWC Cymru
Llongyfarchiadau gwresog i Cai Wilshaw a Siobhan Brennan (Blwyddyn 12) a fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth dadlau CEWC Cymru (Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd.) Cafodd y ddau ohonynt eu gwobrwyo fel siaradwyr

Her Y Tri Chopa: Yr Wyddfa - Cadair Idris - Pen Y Fan
Ar benwythnos braf o Hydref Llwyddodd 29 o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Plasmawr sydd yn paratoi ar gyfer gwobr aur Dug Caeredin i gwblhau her Tri Copa Cymru. Taith noddedig oedd hwn i godi arian at eu halltaith i'r Alpau yn ystod gwyliau Haf 2011. Dan arweiniad Mr Aled Morgan fel llwyddodd pawb i goncro'r tri copa ac edrychant ymlaen yn eiddgar at eu her nesaf. Os ydych yn awyddus i noddi'r criw ar eu taith i'r Alpau neu i ddarganfod fwy am y daith yna cysylltwch a Aled Morgan (am@plasmawr.cardiff.sch.uk).

'100'

Mae Cwmni Theatr Bara Caws yn falch o gael cyflwyno `100' fel ein cynhyrchiad nesaf, Tachwedd/Rhagfyr 2010.

Dychmygwch fod yn rhaid i chi ddewis un atgof yn unig o'ch bywyd - bydd y gweddill yn diflannu am byth. Dychmygwch mai'r atgof hwnnw yw'r unig beth fydd yn gwmni i chi'n dragywydd. Dychmygwch .... 100....99....98

Addaswyd y gwaith i'r Gymraeg gan Elin Jones, o'r darn a grëwyd gyntaf gan Neil Monaghan, Diene Petterle a Christopher Heimann. Mae'r ddrama, sydd yn gymysgedd rhithiol o symud a syniadau yn rhoi cyfle i'r cwmni gydweithio ag actorion a choreograffydd newydd a chynnig cynhyrchiad gweledol, gwahanol, i'n cynulleidfa. Bydd 5 actor yng nghynhyrchiad `100' a'r cyfarwyddwr yw Tony Llewelyn.

Mae'r cymeriadau yn `100' yn cael eu gorfodi i ddewis ac i ail fyw'r eiliadau hynny o atgof gan ddefnyddio dim ond eu cyrff a'u cyd actorion. Cludir ni o swyddfa yn Llundain, i ras feiciau modur, o ddyfnder coedwigoedd yr Amazon i ymyl dibyn bodolaeth wrth i'r unigolion geisio cipio un em werthfawr o flerwch eu byw a'u bod.

Dewiswch rywbeth o blith y cyfan a wnaethoch ac a brofoch, a feddylioch ac a deimloch .... pa beth yw'r trysor drytaf?

Yr actorion fydd - Darren Stokes, Rhodri Trefor, loan Gwyn, Mared Elliw Huws a Sioned Wyn Jones.

Perfformir '100' yn Chapter, Caerdydd ar 26 a 27 Tachwedd.

Ysgol Melin Gruffydd

Sialens ddarllen haf y llyfrgell
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym mis Hydref i wobrwyo 83 o blant yr ysgol lwyddodd i gwblhau y sialens ddarllen yn ystod y gwyliau haf. Roedd pob un ohonynt wedi llwyddo i ddarllen chwech llyfr. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch!

Ras Feiciau Rhithwir
Mae'r ysgol wedi bod yn ran o gynllun "Bike it" ers dwy flynedd sy'n hybu dulliau iach o deithio i'r ysgol. Mae'r cynllun yn trefnu amrywiol weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac yn ystod mis Hydref cynhaliwyd Ras Feiciau Rithwir o gwmpas Cymru. Am bob disgybl ddeuai i'r ysgol ar feic roeddem yn cael pwynt, a dau bwynt am bob rhiant ac aelod o staff!

Roeddem yn cystadlu yn erbyn nifer o ysgolion o Gaerdydd, Port Talbot a Chonwy. Ni oedd yr ysgol gyntaf i gyrraed yn ôl i Gaerdydd!

Y wobr oedd ymweliad â'r Senedd (ar feiciau rhan fwyaf o'r daith). Tynnwyd lluniau o'r plant yn derbyn tystysgrif a'r wobr gyntaf sef sioe BMX i ddod i'r ysgol cyn Nadolig! Roedd y plant yn gyffrous iawn! Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Higham am drefnu a chydlynu'r prosiect ac i Mr Tim Anfield, swyddog datblygu'r cynllun "Bike it" am ei gymorth.

Pwy Sy'n Dwad ...?

Bydd sêr rhaglen Doctor Who Matt Smith a Karen Gillan yn glanio yng Nghanolfan Ddinesig Caerdydd ar 10 Tachwedd i gynnau Goleuadau Nadolig y ddinas a nodi dechrau'r ŵyl i Gaerdydd, y Ddinas Nadolig.

Cynhelir y digwyddiad i gynnau'r goleuadau ar Rodfa'r Brenin Edward VII am 7.40pm, ar ôl i'r tyrfaoedd gael eu difyrru o 6.30pm gan ffefryn y plant Bob The Builder a'i bartneriaid Wendy a Spud, gyda cherddoriaeth gan y band soul Supernatural.

Mae Tachwedd 10 hefyd yn nodi noson agoriadol 10fed Gŵyl y Gaeaf Caerdydd, atyniad rhew poblogaidd y ddinas sy'n creu awyrgylch tymhorol godidog o amgylch Llawr Sglefrio Awyr Agored Admiral.

Am ragor o fanylion am yr holl weithgareddau yng Nghaerdydd y Ddinas Nadolig ewch i www.cardiffswinterwonderland.com

Band Chwyth Ieuenctid yn cyrraedd y nodau uchel gyda Gwobr Ariannol

Mae Band Chwyth Ieuenctid Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yn gyfoethocach ar ôl iddyn nhw ennill gwobr ariannol am eu gwaith caled yn hyrwyddo proffil cerddoriaeth Gymreig.

Cafodd y cerddorion ifanc wobr o £500 drwy Wobr W S Gwynn Williams eleni er cydnabyddiaeth eu bod yn hyrwyddo cerddoriaeth o Gymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Bydd y Wobr W S Gwynn Williams yn helpu i sicrhau cerddoriaeth newydd i'r band i herio a datblygu ymhellach ddoniau cerddorol yr aelodau dros y blynyddoedd i ddod. Maen nhw nawr yn anelu at gystadlu yng ngŵyl ranbarthol Gŵyl Band Cyngerdd Cenedlaethol yn Nhrefynwy, ac o'u dethol, byddan nhw'n mynd yn eu blaen i gynrychioli Cymru yn y ffeinal i'w gynnal yn Glasgow fis Ebrill.

Doctor Who, Matt Smith a Karen Gillan bydd yn cynnau Goleuadau Nadolig y ddinas

Her y Tri Chopa Ysgol Plasmawr

Côr CF1

Cafodd CF1 ei enwi ymysg y pedwar olaf yng nghategori Côr Oedolion Gorau cystadleuaeth BBC Côr y Flwyddyn a bydd y cantorion yn cystadlu yn erbyn tri chôr arall yn y rownd derfynol yn Neuadd Symffoni Birmingham ar Dachwedd 6ed. Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen i gystadlu ar gyfer y teitl BBC Côr y Flwyddyn 2010. Enwyd y côr ar ôl yr ardal o'r ddinas lle wnaethant gyfarfod gyntaf, a dymunwn yn dda iddynt.

Ysgol Melin Gruffydd yn y Senedd

Cymdeithas Bob Owen

FFAIR LYFRAU, CARDIAU ELUSENNOL, MÂN GREIRIAU, RECORDIAU A CDau

Canolfan Y Wallich,
Heol y Gadeirlan, Caerdydd

SADWRN 4 RHAG. 2010

10 am - 4 pm

MYNEDIAD £1.50 *(yn cynnwys Te/coffi)*

Os oes gennych lyfrau i'w gwerthu archebwch fwrdd am £15

Am fwy o fanylion cysylltwch ar 01678 540652 neu ar *tanycastell@yahoo.com*

Addysg Gymraeg – Addewidion y Swyddogion

Cyfaddefodd un swyddog addysg iddo ofni bod mwyafrif rhieni'r 20 plentyn y soniais amdanynt fis diwethaf wedi'r cyfan wedi gosod eu plant mewn addysg Saesneg ac mae'n debyg taw'r ffactor allweddol yn y golled hon yw'r pellter rhwng cartref ac ysgol, sy'n cadarnhau pwysigrwydd ymgais RhAG i sicrhau digonedd o leoedd ym mhob ardal o Gaerdydd, fel y pwysleisiodd swyddogion RhAG yn eu cyfarfod â swyddogion y sir ddechrau Hydref gan dynnu sylw at y diffyg lleoedd gwag yng ngorllewin y ddinas. Nid yw cynnig lle yn Ysgol Glan Ceubal yn dderbyniol i riant sy'n byw ym mhellteroedd Caerau neu Drelái. Roedd y sir yn derbyn hyn ac yn addo lleoedd ychwanegol yn y gorllewin erbyn 2011, heb allu dweud eto ymhle.

Mae'r sir hefyd yn addo sicrhau parhad Tan-yr-Eos ar yr un safle tan Gorffennaf 2013 trwy godi rhagor o gabanau symudol ar y parc cyfagos ac felly darparu 60 lle y flwyddyn rhwng Treganna a Than-yr-Eos hyd nes yr agorir y Treganna newydd gyda lle i 3 ffrwd ar safle Heol Sanatoriwm.

Gyda hanes dyddiau olaf Bryntaf yn y cof pryd oedd 3 ffrwd yn bodoli mewn adeilad hollol anaddas, mynegodd cynrychiolwyr RhAG eu pryder am y bwriad i agor y Treganna newydd fel ysgol 3 ffrwd. Mae hyn yn destun pryder i swyddogion y sir hefyd a dywedant fod cynlluniau dan ystyriaeth i arloesi gyda threfn ysgol arbrofol y bydd yn cael ei hyrwyddo gan bensaernïaeth wahanol a blaengar.

Mae'n bur debyg nid Treganna bydd yr unig ysgol gynradd 3 ffrwd yng Nghaerdydd, yn wyneb prinder penaethiaid a safleoedd ar gyfer ysgolion Cymraeg ychwanegol. Ers cyfarfod RhAG â'r swyddogion mae cynnig wedi mynd gerbron yr Is-bwyllgor Ysgolion sy'n derbyn bod eisiau darparu 4.5 ffrwd (lle i 135 plentyn) yn nalgylchoedd Treganna/ Pwll Coch erbyn Medi nesaf ac yn awgrymu ymestyn Ysgol Pwll Coch i dderbyn 3 ffrwd. Proffwyda'r swyddogion alw am 6 ffrwd yma erbyn 2014. Nid oes eto amserlen swyddogol i ddweud pryd agorir y drydedd ffrwd hon ond does fawr o amheuaeth taw Fedi nesaf bydd hi ac mewn caban symudol unwaith eto.

Ni fydd ysgolion Cymraeg 3 ffrwd yn gyfyngedig i ardal Treganna. Mae'r swyddogion wedi cyhoeddi arolwg eang o ddarpariaeth addysg ar draws y ddinas yn wyneb y cynnydd yng ngraddfa genedigaethau. Ym maes addysg Gymraeg maent yn nodi bod Ysgol Cefn Onn ar fin cau (39 plentyn mewn ysgol i 360) sy'n cynnig cyfle i ddatblygu ei chymydog Y Wern fydd hefyd yn derbyn 3 ffrwd cyn gynted â bod eisiau'r lleoedd. Mae Chris Jones wrth annerch Sefydliad Materion Cymreig wedi cyhoeddi iddo ddisgwyl twf o 50% yn y galw am addysg Gymraeg erbyn 2015, sef 10% y flwyddyn. Roedd 625 plentyn o ddifri yn ceisio lle yn AG eleni; fe allwn ddisgwyl tua 690 cais Fedi nesaf sef ffigwr 25 dros y lleoedd ar gael eleni. Bydd angen felly'r 60 lle ychwanegol ym Mhwll Coch a'r Wern erbyn Medi nesaf.

Yn ein cyfarfod cawsom ddwy eitem o newyddion da iawn, sef yn gyntaf bod Caerdydd yn y proses o gynnal arolwg y galw am addysg Gymraeg, arolwg sy'n annhebyg o ddatgelu bod galw cudd mawr ond fe gawn weld, ac yn ail bod Caerdydd i gynnig y dewis o addysg Gymraeg i bob plentyn sy'n cyrraedd 4 mlwydd oed gan hysbysu pob rhiant bod y plentyn yn byw mewn dalgylch ysgol Saesneg X ac ysgol Gymraeg Y a gofyn i'r rhieni ddewis p'un ai X neu Y maent yn dymuno ei chael.

Michael Jones

Ysgol Pencae

Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd
Cyflwynwyd perfformiad yng Nghanolfan y Mileniwm ddiwedd Medi am ein gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg,Saesneg a Ffrangeg fel rhan o ddathliadau Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Rydyn ni'n gwerthfawrogi pob gwlad ledled y byd ym Mhencae.

Clwb Ffilm
Daeth enwogion i'r ysgol yn ystod y misoedd diwethaf! Daeth Kevin Brennan, Aelod Seneddol, ynghyd â Michael Sheen, yr actor byd enwog, i'r ysgol er mwyn trafod eu hoff ffilmiau ynghyd ag ateb cwestiynau'r disgyblion am eu dyletswyddau a'u swyddi diddorol. Defnyddir y Clwb Ffilm fel cyfrwng i ddatblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a thrawsieithu'r disgyblion.

Arbrawf Tywydd Prydain/*Great British Weather Experiment*
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 yr ysgol y cyfle i ddysgu mwy am feteoroleg drwy gyfrwng yr Arbrawf Tywydd Prydain. Daeth labordy symudol oedd yn cynnwys pob math o offer arbenigol i'r ysgol er mwyn i ni gael y cyfle i fod yn rhan o'r arbrawf unigryw hwn. Pe dymunech fod yn rhan o'r arbrawf ymwelwc â www.theweatherclub.org.uk. Diolch i'r disgyblion am eu brwdfrydedd.

Gwasanaeth Cynhaeaf
Unwaith yn rhagor eleni, daeth Evan, cyfaill a Llywodraethwr yr ysgol, i gynnal gwasanaeth arbennig gyda ni er mwyn dathlu'r Cynhaeaf. Cyfrannodd y plant yn hael i'r elusen Cymorth Cristnogol er mwyn helpu trigolion Pacistan.

Calendr y Dinesydd

Gwener, 5 Tachwedd
Cymrodorion Caerdydd. 'Hanes a Chynnwys Casgliad Llyfrau Prin Dinas Caerdydd.' Cyflwyniad gan Peter Keelan a chyfle i weld rhai o'r trysorau. Yn Ystafell y Casgliadau Arbennig ac Archifau sydd ar lawr gwaelod Llyfrgell y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, Heol Corbett, am 7.00 pm.

Gwener, 5 Tachwedd
Cymdeithas Carnhuanawc. Cinio yng Ngwesty Churchills, 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwadd: Yr Archdderwydd, T. James Jones. Manylion pellach: Nans Couch (029-2075-3625) neu Catherine Jobbins (029-2062-3275).

Gwener, 5 Tachwedd
Clwb y Diwc. 'Cofio Iwan'. Noson i gofio Iwan Llwyd yng nghwmni rhai o'i gyfeillion, gan gynnwys Geraint Lovgreen, Ifor ap Glyn, Myrddin ap Dafydd, Ynyr Williams, Bobs a Rhys Iorwerth. Yn y Duke of Clarence, Treganna am 8.00pm.

Llun, 8 Tachwedd
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Sgwrs gan Wil Morris Jones am Bangla Cymru, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.

Mawrth, 9 Tachwedd
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Walter Brooks am Batagonia, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

Mercher, 10 Tachwedd
Cylch Cadwgan. Lowri Roberts yn siarad ar y testun 'Canu Clod y Campau', yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Iau, 11 Tachwedd
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Cyfarfod Heddwch, yng nghapel Ebeneser am 7.30pm.

Llun, 15 Tachwedd
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni John Rowlands, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Llun, 15 Tachwedd
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'E. G. Bowen a Brwydr Prydain.' Sgwrs gan Dr Neville Evans, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mawrth, 16 Tachwedd
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. 'Fy hoff recordiau.' Noson yng nghwmni Alice Reed, Euros Rhys Evans a Marc Jon Williams, am 7.30pm.

Mercher, 17 Tachwedd
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Clonc a chân yng nghwmni Glyn Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Iau, 18 Tachwedd
Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin Radur a Phentre-poeth. Noson i'r Merched. Pryd ac ocsiwn, am 8.00pm yn y Mochyn Du. Manylion pellach: 07817-770312.

Gwener, 19 Tachwedd
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Eurwyn Wiliam ar y testun 'Celfi Brynmawr: Arbrawf Cymdeithasol y Crynwyr, 1928–40', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Sadwrn, 20 Tachwedd
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Arfon Jones am y wefan 'Beibl.net' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Mawrth, 23 Tachwedd
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. 'I'r Gorllewin o Baddington.' Sgwrs gan yr Athro Stuart Cole, am 7.30pm.

Gwener, 26 Tachwedd
Clwb y Diwc. Geraint Lovgreen. Y nos Wener cyn y gêm fawr rhwng Cymru a Seland Newydd. Yn y Duke of Clarence, Treganna am 8.00pm. Mynediad £7.00.

Gwener–Sadwrn, 26–27 Tachwedd
Theatr Bara Caws yn cyflwyno'r ddrama '100' (addasiad Elin Jones o waith Neil Monaghan, Diene Petterle a Christopher Heimann), yng Nghanolfan Chapter am 7.30pm. Tocynnau: 029-2030-4400.

Mawrth, 30 Tachwedd
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. 'Penny Readings', dan lywyddiaeth y Parch. Denzil John, am 7.00pm.

Mercher, 1 Rhagfyr
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Atgofion am yr Allt-wen gan Dr Jestyn Harris, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Mercher, 1 Rhagfyr
Merched y Wawr Bro Radur. Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Côr y Waun Ddyfal, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Sadwrn, 4 Rhagfyr
Ffair lyfrau (newydd ac ail-law), cardiau elusennol, mân greiriau, etc., wedi'i threfnu gan Gymdeithas Bob Owen yng Nghanolfan y Wallich, Heol y Gadeirlan, Caerdydd, rhwng 10.00am a 4.00pm. Mynediad £1.50 (yn cynnwys te/coffi). Am fanylion pellach, neu os ydych am logi bwrdd, cysylltwch â Mel Williams (01678-540652; tanycastell@yahoo.com).

Llun, 6 Rhagfyr
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr: Walter Brooks (Patagonia). Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

Llun, 6 Rhagfyr
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Arholi'r Gwyddorau: Heddiw, Ddoe ac Yfory.' Sgwrs gan Gareth Pierce (Prif Weithredwr CBAC). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Llun, 6 Rhagfyr
Merched y Wawr. Gwasanaeth Carolau'r Rhanbarth, yng Nghapel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur.

Mawrth, 7 Rhagfyr
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Dr Gethin Matthews yn sgwrsio am 'Brosiect Cymry'r Rhyfel Mawr Arlein', am 7.30pm.

Gwener, 10 Rhagfyr
Cymrodorion Caerdydd. 'Cofio Elfed.' Darlith gan yr Athro Prys Morgan i ddathlu 150 mlwyddiant geni Elfed. Yn neuadd Eglwys Dewi Sant am 7.30pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 11 Rhagfyr
Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin Radur a Phentre-poeth. Ffair Nadolig Sali Mali, rhwng 11.00am ac 1.00pm yn Neuaddau'r Hen Eglwys, Radur. Manylion pellach: 07817-770312.

Llun, 13 Rhagfyr
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Nadolig ac adloniant, yng nghapel Bethany am 7.00pm.

Mawrth, 14 Rhagfyr
Merched y Wawr Caerdydd. Blasu bwyd a charolau, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

Mawrth, 14 Rhagfyr
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson o gerddoriaeth Nadoligaidd yng nghwmni Rob Nicholls a'i ffrindiau, am 7.30pm.

Mercher, 15 Rhagfyr
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a the parti'r Nadolig am 1.00pm yn festri Capel Minny Street. Gŵr gwadd: Parch. Denzil John.

Sadwrn, 18 Rhagfyr
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr Christine James am gerdd Nadoligaidd am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Gwener, 24 Rhagfyr
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Carolau a chanhwyllau, dan ofal Rhys a Gwenda Morgan, yng nghapel Bethel am 11.00pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: *JamesEW@caerdydd.ac.uk*).

Cymdeithas Tŷ'r Cymry

Yn Heol Gordon, dafliad carreg o dŷ'r Arglwydd Faer yn West Grove, y mae Tŷ'r Cymry. Cafwyd yr adeilad ym 1936, yn rhodd gan Lewis Williams, i'w ddefnyddio'n ganolfan anenwadol i Gymry'r dre. Am ragor na 70 mlynedd bu'n ganolfan ac yn gyrchfan i fudiadau a chymdeithasau.

Mae'r Tŷ yn parhau ar agor ac yn ganolfan i sawl mudiad ond bellach daeth y Gymdeithas, sef y criw fu'n cwrdd yno dan enw Cymdeithas y Tŷ, i ben. Tristwch o'r mwyaf i'r ffyddloniaid oedd hyn. Daethom ynghyd ar 13 Hydref i gwrdd am y tro olaf, a hynny dan arweiniad Gwilym Roberts a'n tywysodd o gwmpas ei annwyl bentre, gan ddechrau wrth gapel Beulah. Ymlaen â ni wedyn heibio'r nant ac at y tŷ lle bu RT Jenkins yn byw, heibio tŷ'r awdur Jack Jones, a chartrefi Iorwerth Peate, Kate Roberts, Andrew Davies, Dewi Emrys ac eraill, hyd at dŷ'r enwocaf o'r cyfan, Gwilym ei hunan. Yno, cynhaliwyd parti bach. Diolch yn fawr i Gwilym. Roedd hi'n noson ardderchog i gloi cyfnod hapus.

Os oes gan rai ohonoch atgofion o'ch ymwneud â Chymdeithas Tŷ'r Cymry, byddai Lona Roberts yn falch eu derbyn trwy e-bost at lonaroberts@hotmail.com neu lythyr at 75 Heol yr Orsaf, Llanisien, CF14 5UU.

Hei-di-ho

Hwyl a cerdd i bobl bach

Mae sesiynau hei-di-ho yn galluogi plant a'i rhieni/ ofalwyr i gael hwyl gyda'i gilydd wrth dod yn gyfarwydd a phrofiadau chwarae creadigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Eglwys Newydd (Capel yr Ararat)	Dydd Llun	10.00yb-11.00yb
Casnewydd (Ezeeeplay, Ty Du)	Dydd Llun	10.15 yb-11.15yb
Treganna (Neuadd Heol Y Brenin)	Dydd Mawrth	10.00yb-11.00yb
Penarth (Neuadd Holl Saint)	Dydd Gwener	10.00yb-11.00yb

Am fanylion pellach cysylltwch â Stephanie:

Ffôn: 029 20655031,

e.bost: heidiho.cerdd@yahoo.com

neu ewch i heidiho.co.uk

Wal yr Anifeiliaid

Ym mis Hydref, cafodd wal yr anifeiliaid enwog Caerdydd ychwanegiad newydd, gyda thrwyn y bwytäwr morgrug enwog yn cael ei ddychwelyd. Ym Mehefin dechreuodd y gwaith adfer ar yr anifeiliaid cerrig poblogaidd, gan gynnwys adleoli trwyn y bwytäwr morgrug yn ogystal â llygaid gwydr newydd sydd ar hyn o bryd ar goll o ddau o'r naw anifail gwreiddiol.

Mae'r wal wedi'i glanhau, gyda cherrig newydd yn lle'r rhai coll neu sydd wedi'u torri'n wael, ac mae graffiti wedi'i lanhau o gefn wal yr anifeiliaid. Hefyd, cafwyd gwared ar y morter sment cyfoes gan ddarparu mortar calch traddodiadol yn ei le. Mae'r gwaith hwn yn rhan o broject £5.6m i Adnewyddu Parc Bute, a gefnogir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.